Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned

Nod Strategaeth Ymgysylltu Archifau Morgannwg yw denu defnyddwyr a chyfranwyr. Yn unol â'n gwerthoedd craidd a'n hymrwymiad i agenda Diwylliannau Newidiol Llywodraeth Cymru, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar hwyluso mynediad i grwpiau o bobl o gymunedau difreintiedig gan weithio i chwalu rhwystrau o ran darparu a defnyddio'r gwasanaethau a gynigir. Yn allweddol i lwyddiant mae cymorth aelodau mewn awdurdodau cyfrannol, partneriaethau presennol â sefydliadau arbenigol a datblygiad parhaus o ran cysylltiadau newydd â grwpiau o randdeiliaid.

Awdurdodau Lleol

- Dosbarthwyd yr Adroddiad Blynyddol i aelodau yn electronig, a rhoddwyd copi caled i gadeiryddion a swyddogion Craffu priodol
- Cyflwyniadau i gynghorau
- Datblygu cysylltiadau â swyddogion

Rhaglen wirfoddoli

- Cydweithio ag asiantaethau i gynnig profiad gwaith i bobl ag anableddau
- Parhau i gefnogi rhaglen profiad gwaith ysgolion
- Gweithio gyda'r Bartneriaeth Addysg a Busnes i barhau ag ymweliadau Byd Gwaith
- Hyrwyddo rhaglen i roi profiad cyn hyfforddi i raddedigion
- Parhau i ymrwymo i brojectau CLOCH i bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Addysg

- Datblygu sesiynau ychwanegol ar gyfer amrywiaeth o oedrannau a galluoedd mewn ysgolion
- Canolbwyntio'r gwaith hyrwyddo ar ysgolion y tu allan i Gaerdydd gan gynnal cysylltiadau presennol
- Hyrwyddo'r gwasanaeth i adrannau Prifysgol gan gynnal cysylltiadau presennol

Digwyddiadau

- Mewnol: trefnu o leiaf 6 digwyddiad mawr yn flynyddol

- Allanol: mynychu o leiaf 1 digwyddiad ym mhob awdurdod bob blwyddyn

Partneriaethau

- Parhau â phartneriaethau presennol
- Datblygu partneriaethau ag o leiaf 3 grŵp newydd bob blwyddyn, gan gyfeirio'n benodol at gynhwysiant
- Canolbwyntio adnoddau ar 2 awdurdod y flwyddyn (2014/15 Bro Morgannwg a Caerffili)

Ymgynghori â defnyddwyr

- Cymryd rhan yn arolygon defnyddwyr blynyddol y Grŵp Ansawdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Llunio ffurflenni adborth ac adran sylwadau ar gyfer y wefan

Proffil

- Gweithio gyda Thîm Marchnata CyMAL i sicrhau cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl
- Defnyddio holl swyddogion y wasg yr awdurdod i ddosbarthu datganiadau i'r wasg
- Parhau i ddatblygu ffrydiau yn y cyfryngau cymdeithasol
- Cymryd rhan mewn rhaglenni radio a theledu, yn lleol ac yn genedlaethol
- Mynychu a chyfrannu at fentrau a grwpiau proffesiynol lleol a chenedlaethol

Dyddiad adolygu: Mai 2015